
Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



# Adroddiad Blynyddol: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 2022/23

# Cynnwys

Cyflwyniad.....5
Cefndir.....5
Adolygiad o gynnydd a chyflawniadau allweddol 2020-2024.....6
Casglu a monitro data.....8
Data Staff.....9
Proffil Staff yn ôl telerau cyflogaeth.....9
Ffeithiau Allweddol: **Proffil staff academaidd ac anacademaidd**.....10
Ffeithiau Allweddol: **Proffil telerau cyflogaeth**.....11
Proffil Staff yn ôl Dull Cyflogaeth.....12
Ffeithiau Allweddol: **Dull Cyflogaeth**.....12
Proffil Staff yn ôl Cyflog.....13
Ffeithiau Allweddol: **Ystod cyflog staff**.....14
Proffil Staff yn ôl Rhywedd.....15
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd**.....15
Proffil Staff yn ôl Oedran.....16
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Oedran**.....17
Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Oedran.....18
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Oedran**.....19
Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd.....20
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd**.....23
Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd.....23
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd**.....24
Proffil Staff yn ôl Anabledd.....25
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl anabledd**.....26
Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Anabledd.....26
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Anabledd**.....27
Proffil Staff yn ôl Oedran ac Anabledd.....28
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Oedran ac Anabledd**.....28
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Crefydd a Chred**.....29
Proffil Staff yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol.....30
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol**.....30
Recriwtio Staff.....31
Ymgeiswyr i rai a gyflogwyd yn PCYDDS ar gyfer 2022-2023.....31
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran**.....31
Ffeithiau Allweddol: **Proffil anabledd**.....32
Ffeithiau Allweddol: **Proffil ethnigrwydd**.....33
Ffeithiau Allweddol: **Proffil rhywedd**.....34
Ffeithiau Allweddol: **Proffil cyfeiriadedd rhywiol**.....35

Ffeithiau Allweddol: **Proffil crefydd a chred** ..... 36
Ffeithiau Allweddol: **Hunaniaeth Rhywedd** ..... 37
Beichiogrwydd a mamolaeth ..... 38
Ceisiadau i weithio'n hyblyg ..... 38
Cwynion a disgyblu ..... 38
Dyrchafiadau Mewnol ..... 38
Staff sy'n Ymadael ..... 42
Staff sy'n Ymadael yn ôl Oedran ..... 43
Staff sy'n Ymadael yn ôl Anabledd ..... 43
Staff sy'n Ymadael yn ôl Ethnigrwydd ..... 44
Staff sy'n Ymadael yn ôl Rhywedd ..... 44
Staff sy'n Ymadael yn ôl Crefydd a Chred ..... 45
Dysgu a Datblygu ..... 45
Data Myfyrwyr ..... 46
Proffil Myfyrwyr Cyffredinol ..... 47
Ffeithiau Allweddol: **Poblogaeth y Myfyrwyr** ..... 47
Ffeithiau Allweddol: **Poblogaeth y Myfyrwyr yn ôl CAH** ..... 48
Ffeithiau Allweddol: **Lefel Astudio** ..... 49
Ffeithiau Allweddol: **Lefel Astudio yn ôl CAH** ..... 50
Ffeithiau Allweddol: **Dull Astudio** ..... 51
Ffeithiau Allweddol: **Dull Astudio yn ôl CAH** ..... 52
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda** ..... 53
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Dull Astudio** ..... 54
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl CAH** ..... 55
Ffeithiau Allweddol: **Heb barhau** ..... 56
Proffil Myfyrwyr yn ôl Rhywedd ..... 57
Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Rhywedd** ..... 57
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Rhywedd** ..... 58
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran a Rhywedd** ..... 59
Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl CAH** ..... 60
Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl Lefel Astudio** ..... 61
Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl Dull Astudio** ..... 62
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Rhywedd** ..... 63
Proffil Myfyrwyr yn ôl Oedran ..... 64
Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Oedran** ..... 64
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran** ..... 65
Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl CAH** ..... 66
Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl Lefel Astudio** ..... 67

Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl Dull Astudio**........68
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Oedran**........70
Ffeithiau Allweddol: **Heb Barhau yn ôl Oedran**........71
Proffil Myfyrwyr yn ôl Ethnigrwydd........72
Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Ethnigrwydd**........72
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd**........73
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd**........74
Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl CAH**........75
Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl Lefel Astudio**........76
Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl Dull Astudio**........77
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd ac Oedran**........78
Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd a Rhywedd**........79
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd**........80
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd**........81
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd**........82
Proffil Myfyrwyr yn ôl anabledd........83
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Anabledd**........83
Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl CAH**........84
Ffeithiau Allweddol: **Proffil Anabledd Manwl**........85
Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Rhywedd ac Oedran**........86
Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Lefel Astudio**........87
Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Dull Astudio**........88
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Anabledd**........89
Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Anabledd a Rhywedd**........90
Proffil Myfyrwyr yn ôl Crefydd a Chred........91
Ffeithiau Allweddol: **Crefydd a Chred**........92
Proffil Myfyrwyr yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol........93
Ffeithiau Allweddol: **Cyfeiriadedd Rhywiol**........93

# Cyflwyniad

Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) yn rhan o Grŵp PCYDDS (y Grŵp), sef menter a chonffederasiwn o nifer o sefydliadau sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn golegau cyfansoddol. Mae gan y Brifysgol gampysau yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Abertawe, Caerdydd, Llundain a Birmingham, sy'n galluogi cyflawni ein ffocws strategol ar gyflogadwyedd ac ehangu cyfranogiad.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, i adeiladu cymunedau cryf ar bob safle, ac i greu amgylchedd dysgu a gweithio cynhwysol a chefnogol lle gall yr holl staff, myfyrwyr a dysgwyr ffynnu a chyflawni eu potensial personol. Rydym yn gweithio'n ddiwyd ar ddileu rhwystrau rhag cyfranogi ac yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiad i gyflawni eu potensial.

Fel y'i nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein pum amcan allweddol ar gyfer 2020-2024 yw:

- Deall yn well anghenion ein cymunedau dysgu a deall y rhwystrau maent yn eu hwynebu er mwyn ffynnu
- Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli o fewn ein cymunedau
- Hyrwyddo cymunedau diogel
- Lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- Creu cymunedau dysgu iach a chynhwysol

# Cefndir

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) y Grŵp a luniwyd gan y Brifysgol yn cwmpasu'r cyfnod 2020 –2024. Mae'n sail i'n hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a nodi rhwystrau rhag cyfranogi, a mynd i'r afael â'r rhain. Ymgynghorodd y Brifysgol yn helaeth â staff, myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a phartneriaid allanol i ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn.

Er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchodedig, mae'r Brifysgol yn cydnabod ei rôl bwysig yn niwylliant a threftadaeth Cymru.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn amlinellu ein prif nodau ac amcanion ar gyfer y bedair blynedd nesaf a chaiff ei gyhoeddi erbyn 31ain Mawrth 2024.

# Adolygiad o gynnydd a chyflawniadau allweddol 2020-2024

Mae'r adolygiad hwn o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2020-2024) yn dod ar gyfnod o drawsnewid ar gyfer y Brifysgol gydag Is-Ganghellor newydd yn dechrau yn y swydd ar 1af Medi 2023.

Mae'r Brifysgol wedi cwrdd â staff o CCAUC yn ystod 2022 i rannu ein cynnydd o ran cyflawni'r amcanion yr ymrwymwyd iddynt yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac i roi adroddiad cynnydd i CCAUC ar ein camau yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb Hiliol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Bwrdd Llywio Iechyd, Llesiant a Chydraddoldebau wedi parhau i ddarparu fframwaith cadarn i fonitro gweithredu'r strategaeth a gosod blaenoriaethau allweddol i'w gweithredu. At hynny, mae'r Bwrdd wedi adrodd wrth y Senedd a Chyngor priodol ynghylch effeithiolrwydd ac effaith y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i gynlluniau cysylltiedig. Mae'r fframwaith strategol hwn wedi galluogi'r Brifysgol a'i chorff llywodraethu i gael goruchwyliaeth gadarn o'r prosiectau amrywiol ac i osod blaenoriaethau allweddol.

Mae'r Brifysgol wedi ymwneud â nifer o brosiectau a mentrau i gefnogi'i hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal, deilliannau cyfartal a mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad.

Cefnogir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan nifer o strategaethau a chynlluniau gweithredu, yn benodol y Strategaeth Iechyd a Llesiant, Cynllun Gweithredu Myfyrwyr Mwy Diogel Rhag Hunanladdiad a'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. At hynny mae cydraddoldeb ac amrywiaeth hefyd wedi'u hymgorffori'n llawn o fewn ein Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu a'n Strategaeth Llwyddiant Academaidd. Cwblheir adolygiad cynhwysfawr yn flynyddol ar gyfer pob strategaeth a chynllun gweithredu yr adroddir arno drwy strwythur pwyllgorau'r Brifysgol. Yn yr Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn, rydym yn adrodd ar y cynnydd lefel uchel a wnaethpwyd yn ystod cyfnod cyfan cylch 2020-2024 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Nid oedd ystadegau myfyrwyr HESA (2022/23) ar gael adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn. Roedd hyn oherwydd oedi cenedlaethol wrth gasglu Cofnod Myfyrwyr HESA 2022/23. Disgwylir i'r data hwn gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024. Heb ystadegau myfyrwyr diweddaraf HESA, nid yw'n bosibl cwblhau dadansoddiad sector trylwyr o'n proffil myfyrwyr. Am y rheswm hwn, mae'r data a geir am fyfyrwyr yn yr adroddiad hwn wedi'i gymryd o'r data mwyaf diweddar oedd ar gael adeg ei gyhoeddi (HESA 2021/22).

Caiff adendwm i'r adroddiad hwn ei gyhoeddi yn ystod yr Haf 2024 gan ddefnyddio HESA 2022/3 cyn gynted ag y bydd ar gael. Bydd y set data hwn hefyd yn ein galluogi ni i asesu ein cynnydd tuag at amcanion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gywir. Caiff yr asesiad hwn ei gwblhau ar ôl rhyddhau HESA 2022/23 a chaiff hefyd ei gyhoeddi yn rhan o'r adendwm i'r adroddiad hwn.

**Prif gyraeddiadau 2020-2024**

- **Creu Uned Llesiant:** Gweithredu strwythurau newydd gan gynnwys creu'r Uned Llesiant. Cynyddu adnoddau ar gyfer y ddarpariaeth llesiant myfyrwyr. Wedi ehangu ymgysylltu â'r gwasanaethau statudol lleol, sirol a chenedlaethol.
- **Cymorth Covid:** Cefnogwyd staff trwy'r pandemig, gan gynnwys gwiriadau llesiant ar gyfer y rheiny oedd yn cael profion cadarnhaol.
- **Datgelu trawma:** Polisi a phrosesau Achos Pryder newydd wedi'u datblygu a'u cyflwyno i gyfoethogi llwybrau adrodd a chymorth ar gyfer myfyrwyr sydd wedi datgelu trawma.
- **Ymgyrch Urddas Mislif:** Yn cynnwys darparu eitemau ar gyfer y mislif yn rhad ac am ddim, trafodaethau gyda rhwydweithiau a grwpiau cymunedol menywod i fynd i'r afael â thlodi mislif. Darparu eitemau ar gyfer y mislif y gellir eu hailddefnyddio ar gyfer myfyrwyr sy'n hawlio caledi, gan wella cynaliadwyedd a chymorth.
- **Cymorth Iechyd Meddwl:** Darpariaeth well ar gyfer cymorth iechyd meddwl mynediad agored 24/7 ar gyfer myfyrwyr a staff
- **Prosiect Connect:** Hyfforddiant a chymorth a ddarparwyd ar gyfer myfyrwyr/staff i adeiladu cymuned a gwella iechyd meddwl. Ymhlith y gweithgarwch ychwanegol roedd digwyddiadau a gweithgareddau rhannu gwybodaeth ar themâu llesiant mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.
- **Hyfforddiant Herio Rhagfarn Ddiarwybod:** Darparwyd hyfforddiant i staff i leihau anghydraddoldebau a hyrwyddo dealltwriaeth.
- **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil** Datblygwyd mewn ymgynghoriad â staff a myfyrwyr, Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil 2021/2024 sydd wedi'i weithredu a'i fonitro
- **Siarter Cydraddoldeb Hil:** Wedi ymrwymo i Egwyddorion y Siarter Cydraddoldeb Hil ac yn gweithio tuag at lefel efydd.
- **Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd:** Wedi cael achrediad Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd yn rhan o gynllun y llywodraeth
- **Rhaglen Cymhwysedd Diwylliannol:** Darparwyd rhaglen arweinyddiaeth drugarog yn elfen sylfaen ar gyfer rhaglen cymhwysedd diwylliannol yn y dyfodol ar gyfer ein huwch arweinwyr.
- **Ymgynghoriad staff:** Cynhaliwyd nifer o arolygon 'pwls' staff i glywed gan ein staff ein hun
- **Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau** Lleihau'r bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau o 9.7% ar 31 Mawrth 2019 i 7% ar 31 Mawrth 2023.
- **Hwb Llesiant Staff:** Creu hwb llesiant staff newydd gyda gwell adnoddau ar gyfer staff a rheolwyr llinell
- **Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth:** Rydym wedi cefnogi 46 o fenywod trwy'r Rhaglen Aurora, wedi cefnogi pedwar o bobl ar brosiect cydweithredol newydd mewn partneriaeth â Rhaglen Amrywio Arweinyddiaeth Advance HE ac wedi cefnogi 17 o fenywod trwy'r Rhaglen SpringBoard.
- **Cynllun Prentisiaeth Digidol:** Lansiwyd cynllun newydd i ddatblygu piblinell newydd o dalent ar gyfer y dyfodol.
- **Buddsoddi mewn systemau AD:** Gwelliannau o ran dadansoddeg ac adrodd ar bobl.

## Casglu a monitro data

Mae Grŵp PCYDDS yn coladu ac yn monitro data o'r ffynonellau mewnol ac allanol canlynol:

- System cofnodion Adnoddau Dynol y Brifysgol
- System recriwtio ar-lein ddwyieithog y Brifysgol
- Systemau Cofnodion Myfyrwyr y Brifysgol
- Data sefydliadol staff a myfyrwyr gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) (a gafwyd drwy Heidi Plus, porth dadansoddi data, yn ogystal â Dangosfwrdd Mesurau Cenedlaethol Cymru)
- Dangosfyrddau monitro data mewnol (e.e. y dangosfwrdd demograffig, dangosfwrdd adolygiadau blynyddol rhaglenni; dangosfwrdd achosion myfyrwyr; dangosfwrdd arolygon myfyrwyr)
- Data ymgeisio a derbyn drwy UCAS

Defnyddir data i:

- asesu defnyddioldeb ac effaith ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chynlluniau gweithredu cysylltiedig;
- nodi tueddiadau oddi mewn i'n staff a'n poblogaethau dysgwyr / myfyrwyr ynghylch nodweddion gwarchodedig;
- nodi a thynnu sylw at unrhyw rwystrau parhaus a/neu feysydd o dangynrychiolaeth neu anghydraddoldeb;
- asesu ein cynnydd o ran ein hamcanion cydraddoldeb a gwirio i weld a oes angen diweddaru neu ddiwygio'r rhain;
- asesu effeithiolrwydd mesurau a gymerwyd yng nghyd-destun y pandemig mewn perthynas â deilliannau myfyrwyr (e.e. rheoliadau wrth gefn)
- nodi blaenoriaethau gweithredu yn y dyfodol.

Yn ystod 2022/23 mae'r Brifysgol wedi parhau i wella'r gwaith o ymgorffori dadansoddi data mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig. Parhawyd i ddatblygu dangosfyrddau myfyrwyr mewnol newydd, a fu'n fodd o wella'n fawr y gwaith o adrodd yn ôl a dadansoddi effaith. Hefyd yn 2022 gwnaethpwyd cynnydd sylweddol mewn perthynas â chasglu a dadansoddi data croestoriadol ynghylch nodweddion gwarchodedig a pharhaodd hyn yn ystod 2023 mewn perthynas ag, er enghraifft, data cymorth ariannol myfyrwyr a data achosion myfyrwyr.


# Data Staff

Mae'r data staff yn seiliedig ar y data mwyaf cyfredol a gyflwynwyd i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer 2022/23 neu mewn rhai achosion, y data a gedwir ar y systemau AD mewnol. Mae data HESA yn cael eu talgrynnu at ddibenion diogelu data.


Er mwyn darparu cyd-destun, mae data staff y Brifysgol wedi'u cymharu â gwybodaeth y sector Addysg Uwch sydd ar gael yn Heidi Plus yn ogystal â data blynyddoedd blaenorol.

Yn 2022/2023, roedd PCYDDS yn cyflogi cyfanswm o 1,635 o staff, sef cynnydd o 11.12% o'i gymharu â 2021/2022.

## Proffil Staff yn ôl telerau cyflogaeth





*Ffigur 1: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 2: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil staff academaidd ac anacademaidd**


- Mae Ffigur 1 yn dangos y newid o ran proffil staff academaidd ac anacademaidd yn PCYDDS o 2016/17 i 2022/23 (ffynhonnell HESA).
- Mae Ffigwr 2 yn dangos bod y ganran o staff academaidd ychydig yn llai na chyfartaledd sector y DU, sef 54.7%, ac mae'n uwch o'i chymharu â chyfartaledd sector Cymru lle mae 49.5% yn staff academaidd.




*Ffigur 3: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 4. Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 5: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Proffil telerau cyflogaeth**

- Dengys Ffigur 3 fod 79.6% o'r staff wedi eu cyflogi ar gontract pen-agored / parhaol o'u cymharu â 20.4% ar gontract cyfnod sefydlog.
- Dengys Ffigur 4 fod 70% o'r rheini ar gontract penagored / parhaol yn staff academaidd, mae cyfran y staff anacademaidd ar gontractau penagored/parhaol wedi aros yn gyson ar y cyfan dros y pum mlynedd ddiwethaf.
- Dengys Ffigur 5 fod cynnydd PCYDDS o ran staff a gyflogir ar gontract penagored / parhaol bellach yn cyd-fynd i raddau mwy helaeth â sector Cymru ar 79.7% ac yn uwch na chyfartaledd y DU sef 77.3%.

## Proffil Staff yn ôl Dull Cyflogaeth




*Ffigur 6: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 7: Ffynhonnell HESA*


### Ffeithiau Allweddol: **Dull Cyflogaeth**

- Dengys Ffigur 6, yn 2022/2023, cyflogwyd 57.9% o'r staff ar gontractau llawn amser a 42.1% o'r staff ar gontractau rhan-amser. O'u cymharu, mae cyfartaleddau sector Cymru a'r DU a gyflogir ar gontractau rhan-amser yn 31.5% a 31.6% yn eu tro, sy'n is na PCYDDS.
- Dengys Ffigur 7 y bu cynnydd mewn cyflogaeth amser llawn staff benywaidd o 44.7% yn 2016/17 i 56.1% yn 2022/23. Mae cyflogaeth amser llawn staff gwrywaidd wedi parhau'n gymharol cyson rhwng 59% a 60. O'u cymharu, dengys ffigurau'r DU fod 75.9% o'r staff gwrywaidd mewn cyflogaeth amser llawn a 62.2% o fenywod mewn cyflogaeth amser llawn.


## Proffil Staff yn ôl Cyflog




*Ffigur 8: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 9: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 10: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Ystod cyflog staff**[1]


- Dengys ffigur 8 y dadansoddiad o staff PCYDDS ar sail ystod cyflog contract o 2016/17 i 2022/23.
- Dengys ffigur 8 batrwm tebyg i flynyddoedd blaenorol, sef mai'r ystod gyflog â'r nifer uchaf o bobl yw ystod gyflog 4, sy'n cynrychioli 46% o'r holl staff.
- Bu cynnydd cyffredinol yng nghyfran y staff yn ystod gyflog 4 dros y saith mlynedd ddiwethaf gyda gostyngiad amlwg yn ystod gyflog 1 a 2.
- Dengys ffigur 9 y dadansoddiad o staff academaidd ar sail ystod cyflog contract.
- Cyflogir tua 2/3 o'r staff academaidd (71.3%) yn ystod gyflog 4, gydag 89.5% o staff academaidd yn cael eu cyflogi naill ai yn ystod gyflog 4 neu 5. Dengys ffigur 10 y dadansoddiad o staff anacademaidd ar sail ystod cyflog contract.
- Dengys ffigur 10 y cyflogir y rhan fwyaf o'r aelodau staff anacademaidd naill ai yn ystod gyflog 2, sef 26.9%, neu yn ystod gyflog 3, sef 37.3%.
- Bu gostyngiad cyson yng nghyfran y staff anacademaidd a gyflogir yn ystod gyflog 1 dros y cyfnod o saith mlynedd, gyda gostyngiad bach o 1% yn y gyfran a gyflogir yn ystod gyflog 2 a chynnydd o 1% yn y gyfran a gyflogir yn ystod gyflog 3 o'i gymharu â 2021/22.

[1] At ddibenion dadansoddi mae'r cyflogau contract wedi'u grwpio mewn chwe ystod gyflog, gyda brig a gwaelod pob ystod yn cyd-fynd â phwyntiau'r golofn gyflogau a ddefnyddir yng Ngholofn Cyflogau JNCHES (y cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel y Golofn Gyflogau Terfynol), fel y'i nodir yn nogfen Single pay spine HESA a geir yn https://www.hesa.ac.uk/collection/c16025 (colofn Salary from 1 August 2016).

## Proffil Staff yn ôl Rhywedd




*Ffigur 11: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 12: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd**


- Dengys ffigur 11 y proffil rhywedd yn y saith mlynedd ddiwethaf.
- Dengys ffigur 12 y rhywedd a'r marciwr academaidd yn 2022/23.
- Yn 2022/23 y dadansoddiad rhywedd ar gyfer staff PCYDDS yw 54.6% yn fenywaidd a 44.8% yn wrywaidd. Mae cyflogaeth staff benywaidd wedi gostwng 2.5% er 2016/17.
- Mae proffil rhywedd cyffredinol PCYDDS yn 2022/23 yn cyd-fynd yn fras â phroffil cyffredinol staff sy'n gweithio mewn addysg uwch yn y DU (54.9% yn fenywaidd a 44.9% yn wrywaidd) ac yng Nghymru (55.4% yn fenywaidd a 44.4% yn wrywaidd).

- Mae cyfran y staff academaidd benywaidd i staff academaidd gwrywaidd yn PCYDDS ar gyfer 2022/23 yn 47.9% yn fenywaidd a 51.3% yn wrywaidd ac mae'n cyd-fynd â Chymru a'r DU.


## Proffil Staff yn ôl Oedran





*Ffigur 13: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 14: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 15: Ffynhonnell HESA*





Ffigur 16: Ffynhonnell HESA

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Oedran**


- Dengys ffigur 13 broffil oedran yr holl staff a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 14 broffil oedran cyflogaeth staff academaidd yn PCYDDS
- Dengys ffigur 15 broffil oedran staff anacademaidd a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 16 ddata cymharol oedran a marciwr academaidd â Chymru a'r DU.
- Bu gostyngiad cyffredinol yng nghyfran y staff 35 oed ac iau, sydd wedi gostwng o 25.1% yn 2016/17 i 20.5% yn 2022/23 ond sydd wedi gweld cynnydd bach o bron i 1% yn y ddwy flynedd ddiwethaf. (Ffigur 13)
- Dengys ffigur 14 gynnydd yng nghyfran y staff academaidd 66 oed a hŷn o 3.7% yn 2016/17 i 6.9% yn 2022/23.

- Dengys ffigur 15 fod y bwlch yng nghyfran y staff anacademaidd 35 oed ac iau wedi gostwng o fwlch o 9% rhwng 2015/16 i 5.2% dros y cyfnod o saith mlynedd.
- Dengys ffigur 16 fod gan sector Cymru a'r DU gyfran uwch o staff 35 oed ac iau, yn benodol 28.1% o academyddion yn y DU, 23.1% o academyddion yng Nghymru o'i gymharu â 13.4% yn PCYDDS..
- Dengys Ffigur 16 hefyd fod gan PCYDDS gyfran uwch o staff, academaidd ac anacadeimaidd rhwng 51-65 oed yn benodol 36.6% o academyddion o gymharu â 30.1% yng Nghymru a 27.3% yn y DU.

## Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Oedran




*Ffigur 17: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 18: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Oedran**

- Dengys ffigur 17 y proffil staff yn ôl rhywedd ac oedran yn PCYDDS am y 7 mlynedd ddiwethaf.
- Dengys ffigur 18 ddata cymharol y proffil staff yn ôl rhywedd ac oedran i Gymru a'r DU.
- Amlyga ffigur 17 gynnydd yn y staff gwrywaidd 66 oed a hŷn a gyflogir yn PCYDDS o 66.7% yn 2016/17 i 73.5% yn 2022/23 o'i gymharu â gostyngiad yn y staff benywaidd a gyflogir o 33.3% yn 2016/17 i 26.5% yn 2022/23. O'i gymharu, y dadansoddiad rhywedd ar gyfer staff PCYDDS yn 2022/23 yw 54.6% yn fenywaidd a 44.8% yn wrywaidd.
- Amlyga ffigur 17 ostyngiad 5% yn y staff benywaidd a gyflogir rhwng 36 a 50 oed o'i gymharu â 2016/17, gyda PCYDDS yn cyflogi 55.3% o staff benywaidd rhwng yr ystod oed hwn yn 2022/23.
- Dengys ffigur 18 fod staff PCYDDS 50 oed ac iau yn gyson â'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU.
- Dengys ffigur 18 nifer ychydig yn uwch o staff benywaidd 51-65 oed (55.1%) a gyflogir o'i gymharu â Chymru a'r DU, sef 54% a 52.9% yn eu tro.
- Dengys ffigur 18 wahaniaeth sylweddol o ran rhywedd staff 66 oed a hŷn a gyflogir o'i gymharu â Chymru a'r DU, gyda PCYDDS yn cyflogi 73.5% o staff gwrywaidd o'i gymharu â 60.3% yng Nghymru a'r DU.


## Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd





*Ffigur 19: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 20: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 21: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 22: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd**

- Dengys ffigur 19 broffil ethnigrwydd yr holl staff a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 20 broffil ethnigrwydd cyflogaeth staff academaidd yn PCYDDS
- Dengys ffigur 21 broffil ethnigrwydd staff anacademaidd a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 22 ddata cymharol ethnigrwydd a marciwr academaidd â Chymru a'r DU.
- Yn 2022/23, dengys Ffigur 19 y datganodd 80.9% o staff PCYDDS fod eu hethnigrwydd yn wyn, nifer sydd wedi gostwng dros y saith mlynedd ddiwethaf.
- Datganodd 16% fod eu hethnigrwydd yn Ddu, Asiaidd, Cymysg neu grŵp ethnig arall, sy'n gynnydd o 13% er 2016/17. (Ffigur 18).
- Dengys Ffigur 22 fod gennym gyfran uwch o staff Du, Asiaidd, Cymysg a grŵp ethnig arall o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, o fewn y staff academaidd a'r staff anacademaidd. Mae 22.3% o staff academaidd PCYDDS o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n ychydig yn is na chyfartaledd cyffredinol y D.U.. Fel y gwelir yn Ffigur 22, mae 8.1% o'r staff anacademaidd yn Ddu, Asiaidd, Cymysg a grwpiau ethnig eraill.
- Dengys Ffigur 19 fod y gyfran o ethnigrwydd anhysbys wedi gostwng 7.8% er 2016/17.

## Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd




*Ffigur 23: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 24: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd**

- Dengys ffigur 23 y proffil staff yn ôl ethnigrwydd a rhywedd yn PCYDDS am y 7 mlynedd ddiwethaf.
- Dengys ffigur 24 ddata cymharol y proffil staff yn ôl ethnigrwydd a rhywedd i Gymru a'r DU.
- Dengys ffigur 23 fod PCYDDS wedi cynyddu nifer ei staff o gefndir ethnig Du, gyda rhaniad o 35.4% staff benywaidd a 64.6% staff gwrywaidd, o'i gymharu â 2016/17.
- Dengys ffigur 23 fod y rhaniad rhywedd wedi newid yn y nifer o staff o gefndir ethnig Asiaidd, gyda nifer y staff benywaidd yn gostwng o 65.7% yn 2016/17 i 45.4% yn 2022/23 a'r staff gwrywaidd yn cynyddu o 34.5% i 54.6%.
- Dengys ffigur 24 fod PCYDDS, o'i chymharu â data Cymru a'r DU, yn cyflogi mwy o staff gwrywaidd o gefndir ethnig Du ac Asiaidd ac ychydig yn llai o staff benywaidd.


## Proffil Staff yn ôl Anabledd




*Ffigur 25: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 26: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 27: Ffynhonnell HESA*


### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl anabledd**

- Dengys ffigur 25 broffil anabledd yr holl staff a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 26 broffil anabledd manwl yr holl staff a gyflogir yn PCYDDS
- Dengys ffigur 27 ddata'r proffil anabledd o'i gymharu â Chymru a'r DU.
- Yn 2022/23, dengys ffigur 25 y datganodd 9.5% o staff PCYDDS fod ganddynt anabledd, sef y gyfran uchaf dros y saith mlynedd ddiwethaf. Mae'r ffigurau hyn fymryn yn uwch na chyfartaledd sector Cymru, sef 8.5%, a chyfartaledd sector y DU sef 7.2%.
- Dengys ffigur 26 fod y gyfran uchaf o'r anableddau datganedig yn Anhawster dysgu penodol ar 25.2% a Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor ar 20.6%.
- I nodi, oherwydd newidiadau i godau HESA, mae'r anabledd 'Anabledd Dysgu Cyffredinol' wedi'i ddileu a chaiff yr opsiwn hwn ei gynnwys o fewn 'Anawsterau dysgu penodol' ar gyfer data 2022/23.

## Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Anabledd




*Ffigur 28: Ffynhonnell HESA*





Ffigur 29: Ffynhonnell HESA


## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Rhywedd ac Anabledd**

- Dengys ffigur 28 y proffil staff yn ôl rhywedd ac anabledd.
- Dengys ffigur 29 ddata cymharol y proffil staff yn ôl rhywedd ac anabledd i Gymru a'r DU.
- Dengys ffigur 28 fod staff gwrywaidd ag anabledd hysbys wedi cynyddu 1.9% o gymharu â 2021/22.)
- Dengys ffigur 28 gynnydd yn y staff benywaidd ag anabledd hysbys, sef cynnydd o 6.8% dros y 7 mlynedd ddiwethaf, gyda 9.7% wedi datgan anabledd yn 2022/23 (ffigur 27).
- O'i gymharu,
    - Mae PCYDDS yn cyflogi ychydig yn fwy o staff benywaidd ag anabledd o'i chymharu â data cyfartaledd y DU a Chymru, sef 7.9% ac 8.9% yn eu tro.
    - Mae PCYDDS yn cyflogi ychydig yn fwy o staff gwrywaidd ag anabledd o'i gymharu â data cyfartalog y DU a Chymru sef 6.2%, a 7.9% yn ei dro.

## Proffil Staff yn ôl Oedran ac Anabledd





*Ffigur 30: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 31: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Oedran ac Anabledd**

- Dengys ffigur 30 y proffil staff yn ôl oedran ac anabledd.
- Dengys ffigur 31 ddata cymharol y proffil staff yn ôl oedran ac anabledd i Gymru a'r DU.
- Bu cynnydd yn yr unigolion ag anabledd hysbys ymhob grŵp oedran o 4.8% yn 2016/17 i 11.8% yn 2022/23 (ffigur 29), a'r grŵp oedran mwyaf yw 51-65 oed.
- O gymharu, mae PCYDDS yn cyflogi mwy o staff ag anabledd hysbys yn y grŵp oedran 51-65 o'i gymharu â data cyfartaleddau'r DU a Chymru, sef 6.8% a 8.7% yn eu tro (ffigur 31).





*Ffigur 32: Ffynhonnell Data Mewnol*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Crefydd a Chred**

- Dengys ffigur 32 broffil y staff yn ôl Crefydd a Chred am y tair blynedd flaenorol.
- Cristion oedd y grŵp crefydd mwyaf, gyda 38% o'r staff yn nodi hynny.
- Mae'r staff sydd wedi datgan dim crefydd wedi cynyddu 45.5% er 2020/21.
- Roedd yn well gan 15% o staff beidio â darparu'r wybodaeth hon neu mae'n anhysbys, sef gostyngiad o 10% o'i gymharu â 2020/21.

## Proffil Staff yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol




*Ffigur 33: Ffynhonnell Data Mewnol*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Staff yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol**

- Dengys ffigur 33 broffil y staff yn ôl cyfeiriadedd rhywiol am y tair blynedd flaenorol.
- Mae wedi bod yn well gan 8% beidio â rhoi'r wybodaeth hon ac nid yw 8% yn hysbys, gostyngiad o 6.2% o'i gymharu â 2020/21.
- Mae 80% wedi datgan eu bod yn heterorywiol/syth, sef cynnydd o 5.9% o'i gymharu â 2020/21.
- Mae 4% wedi datgan eu bod naill ai'n Hoyw neu'n Lesbiad, yn Ddeurywiol neu Arall.
- Mae nifer y bobl sy'n dewis datgan y wybodaeth hon yn cynyddu o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

## Recriwtio Staff


O 1 Awst 2022 i 31 Gorffennaf 2023, hysbysebwyd 407 o swyddi. Derbyniodd PCYDDS 5224 o geisiadau. Mae hwn yn gyfartaledd o 12.83 cais y swydd.

Yn ystod yr un cyfnod adrodd, cynigiwyd cyfweliad i 1,527 o ymgeiswyr. Mae hwn yn gyfartaledd o 3.4 ymgeisydd yn cyrraedd y rhestr fer y swydd.

Gwnaethpwyd 441 o gynigion a chyflogwyd 378 o unigolion.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| Swyddi hysbysebwyd | 476 | 407 |
| Ceisiadau | 5579 | 5224 |
| Cynigiwyd cyfweliad | 1768 | 1527 |
| Cynigion | 566 | 441 |
| Cyflogwyd | 469 | 378 |


### Ymgeiswyr i rai a gyflogwyd yn PCYDDS ar gyfer 2022-2023




*Ffigur 34: Ffynhonnell Data Mewnol*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran**


- Dengys ffigur 34 fod 24% o'r 5224 o ymgeiswyr dan 29 oed.  Roedd 13%  yn hŷn na 50 oed.
- O'r 9%  o ymgeiswyr dan 24 oed, cyflogwyd 7%.
- O'r 13%  o ymgeiswyr yn hŷn na 50 oed, cyflogwyd 17%.
- Roedd yn well gan 2%  o'r ymgeiswyr beidio â rhannu eu grŵp oedran.




*Ffigur 35: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil anabledd**


- Dengys ffigur 35 broffil anabledd PCYDDS o ymgeiswyr i rai a gyflogwyd o Awst 2022 – Gorffennaf 2023
- Roedd y rheini a ddatganodd fod ganddynt anabledd fel a ganlyn: 8% o ymgeiswyr, 9% o'r rheini y cynigiwyd cyfweliad iddynt, 9% o'r rheini y cynigiwyd swydd iddynt ac 9% o'r rheini a gyflogwyd.




*Ffigur 36: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil ethnigrwydd**


- Dengys ffigur 36 broffil ethnigrwydd ymgeiswyr i rai a gyflogwyd o Awst 2022 – Gorffennaf 2023.
- Roedd 47% o ymgeiswyr o gefndir Gwyn, gostyngiad o 4.3% o'r flwyddyn flaenorol a olygodd fod 60% o'r rhai a gyflogwyd o gefndir Gwyn, gostyngiad o 3.8% ers y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 25% o ymgeiswyr yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, cynnydd o 3.5% ers y flwyddyn flaenorol a olygodd fod 22% o'r rhai a gyflogwyd yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, sy'n gynnydd o 9% ers y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 13% o ymgeiswyr yn Ddu neu Ddu Prydeinig, cynnydd o 1.5% ers y flwyddyn flaenorol a olygodd fod 12% o'r rhai a gyflogwyd yn Ddu neu Ddu Prydeinig, cynnydd o 0.5% ers y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 4% o ymgeiswyr o gefndir ethnig arall, gostyngiad bach o 0.4% ers y flwyddyn flaenorol a olygodd fod 2% o'r rhai a gyflogwyd o gefndir ethnig arall, gostyngiad o 2.7%.
- Roedd 3% o ymgeiswyr o gefndir cymysg arall, cynnydd o 1.8% ers y flwyddyn flaenorol sy'n golygu bod 2% o'r rhai a gyflogwyd o gefndir cymysg arall, cynnydd bach o 0.3%.
- Roedd yn well gan 3% beidio â datgelu eu hethnigrwydd ac roedd 5% yn anhysbys.




*Ffigur 37: Ffynhonnell data mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil rhywedd**


- Dengys ffigur 37 broffil rhywedd yr ymgeiswyr i'r rhai a gyflogwyd yn PCYDDS am y cyfnod Awst 2022 i Orffennaf 2023.
- Roedd 45% o'r ymgeiswyr yn fenywaidd a 48% o'r ymgeiswyr yn wrywaidd.
- Roedd 47% o'r rheini a gyfwelwyd yn fenywaidd, 51% yn wrywaidd.
- Roedd 51% o'r rheini y cynigiwyd y swydd iddynt yn fenywaidd, 47% yn wrywaidd.
- Roedd 51% o'r rheini a gyflogwyd yn fenywaidd, 47% yn wrywaidd.
- Roedd yn well gan 1% o ymgeiswyr beidio â datgan eu rhywedd ac roedd 5% yn anhysbys.




*Ffigur 38: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil cyfeiriadedd rhywiol**


- Dengys ffigur 38 broffil cyfeiriadedd rhywiol yr ymgeiswyr i'r rhai a gyflogwyd rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023.
- Heterorywiol/syth oedd y cyfeiriadedd rhywiol mwyaf cyffredin, gyda 81% o ymgeiswyr yn datgan hyn ac 88% o'r rhai a gyflogwyd.
- Yn ystod y cyfnod hwn,
  - datganodd 8% o'r ymgeiswyr eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw, yn lesbiad neu arall,
  - datganodd 7% o'r rheini y cynigiwyd cyfweliad iddynt eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw, yn lesbiad neu arall,
  - datganodd 6% o'r rheini y cynigiwyd y swydd iddynt eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw, yn lesbiad neu arall,
  - a datganodd 6% o'r rheini a gyflogwyd eu bod yn ddeurywiol, yn hoyw, yn lesbiad neu arall.
- Roedd yn well gan 6%) o'r ymgeiswyr beidio â datgan y wybodaeth hon ac roedd 5% yn anhysbys.




*Ffigwr 39: Ffynhonnell Data Mewnol*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil crefydd a chred**

- Dengys ffigur 39 broffil crefydd a chred ymgeiswyr i'r rhai a gyflogwyd rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023.
- Y datganiad mwyaf cyffredin yw Dim crefydd gyda 31% o'r ymgeiswyr a 33% o'r rhai a gyflogwyd yn ogystal â Christion gyda 31% o'r ymgeiswyr a 36% o'r rhai a gyflogwyd.
- Yr ail fwyaf cyffredin yw Mwslim gyda 18% o ymgeiswyr a 13% o'r rhai a gyflogwyd. Mae hyn yn gynnydd o 3% o'r rhai a gyflogwyd y llynedd oedd wedi datgan eu bod yn Fwslim.



*Ffigur 40: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Hunaniaeth Rhywedd**

- Dengys ffigur 40 hunaniaeth rhywedd yr ymgeiswyr i'r rhai a gyflogwyd rhwng Awst 2022 a Gorffennaf 2023.
- Y cwestiwn a ofynnwyd oedd 'Ydy eich hunaniaeth rhywedd yn cyfateb i'ch rhywedd fel y'i cofrestrwyd adeg genedigaeth?' ac atebodd 92% o'r ymgeiswyr 'Ydy', ymatebodd 1% 'Na', roedd yn well gan 2% beidio â dweud ac roedd 5% yn anhysbys.

## Beichiogrwydd a mamolaeth

Yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023:

| |
|---|
| cymerodd 35 menyw absenoldeb mamolaeth |
| cymerodd 12 o bobl absenoldeb tadolaeth |

*Ffigur 41: Ffynhonnell Data Mewnol*

### Ceisiadau i weithio'n hyblyg

Gyda chyflwyno egwyddorion gweithio hybrid ar ôl y pandemig, mae hyn wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i staff o ran eu harfer ac ar sail anffurfiol. Felly yn ystod y cyfnod 2022/23, mae'r Brifysgol yn anffurfiol wedi ystyried nifer fawr o geisiadau i weithio'n hyblyg.

### Cwynion a disgyblu

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-2023, cyflwynwyd wyth cwyn a chynhaliwyd dau achos disgyblu.

Oherwydd nifer fach yr achosion, nid ydym yn gallu cyhoeddi nodweddion personol yr unigolion.

## Dyrchafiadau Mewnol

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2022-2023, buodd 156 o bobl yn llwyddiannus wrth ennill dyrchafiad mewnol, sy'n gyfuniad o geisiadau llwyddiannus am ailraddio a phenodiadau mewnol.

Ystod oed uchaf dyrchafiadau mewnol oedd 35-44 oed, sef 31.5% (gweler Ffigur 42).


Y ganran o ddyrchafiadau mewnol a ddatganodd fod ganddynt anabledd oedd 11.5% o'i gymharu â'r ganran o'r holl staff a ddatganodd fod ganddynt anabledd sef 9.5% (gweler ffigur 43).

Mae canran y dyrchafiadau mewnol sy'n Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn 6.4%, Du neu Ddu Prydeinig yn 3.8%, o gefndir ethnig cymysg yn 1.3%, o gefndir ethnig arall yn 3.2%, o gefndir Gwyn yn 84% ac anhysbys yn 1.3%. (gweler Ffigur 44).


O'r holl ddyrchafiadau mewnol, roedd 57.1% yn fenywod a 42.9% yn ddynion (gweler Ffigur 45)

O'r holl ddyrchafiadau mewnol, datganodd 46.8% nad oedd ganddynt grefydd a datganodd 31.4% eu bod yn Gristion (gweler Ffigur 46).


O'r holl ddyrchafiadau mewnol, datganodd 8.3% bod eu cyfeiriadedd rhywiol yn naill ai deurywiol, hoyw, lesbiad neu gyfeiriadedd rhywiol arall, roedd yn well gan 4.5% beidio â datgan eu cyfeiriadedd rhywiol a datganodd 84.6% eu bod yn syth/heterorywiol (gweler Ffigur 47)





*Ffigur 42: Ffynhonnell Data Mewnol*





*Ffigur 43: Ffynhonnell Data Mewnol*





*Ffigur 44: Ffynhonnell Data Mewnol*




*Ffigur 45: Ffynhonnell Data Mewnol*




*Ffigur 46: Ffynhonnell Data Mewnol*




*Ffigur 47: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Staff sy'n Ymadael

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022 - 2023, gadawodd 113 o staff eu cyflogaeth yn y Brifysgol, sy'n cyfateb i 6.9% o'r holl staff.


Yr ystod oedran â'r nifer uchaf o ymadawyr oedd 30-39, sef 27.5% (gweler Ffigur 48).

Y ganran o ymadawyr a ddatganodd fod ganddynt anabledd oedd 5.5% o'i gymharu â'r ganran o'r holl staff a ddatganodd fod ganddynt anabledd sef 9.5% (gweler ffigur 49).

Y ganran o ymadawyr a ddywedodd eu bod o gefndir ethnig lleiafrifol oedd 22%. Mae 17% o'r rhain yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig, cynnydd o 11.4% yn y ddwy flynedd ddiwethaf (gweler Ffigur 50).


O'r holl ymadawyr roedd 50% yn fenywaidd, a 50% yn wrywaidd o'i gymharu â 2020/21 pan oedd 67% o'r ymadawyr yn fenywaidd a 33% yn wrywaidd. (gweler Ffigur 51).

## Staff sy’n Ymadael yn ôl Oedran





*Ffigur 48: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Staff sy’n Ymadael yn ôl Anabledd





*Ffigur 49: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Staff sy'n Ymadael yn ôl Ethnigrwydd





*Ffigur 50: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Staff sy'n Ymadael yn ôl Rhywedd




*Ffigur 51: Ffynhonnell Data Mewnol*

## Staff sy’n Ymadael yn ôl Crefydd a Chred




*Ffigur 52: Ffynhonnell Data Mewnol*

Nid oedd modd i ni adrodd ar gyfeiriadedd rhywiol oherwydd y niferoedd bach dan sylw.

## Dysgu a Datblygu

O ddechrau 2022, mae prosiect ar waith i weithredu modwl hyfforddi o fewn y system AD/Cyflogres i gofnodi a monitro hyfforddiant e-ddysgu gan gynnwys Herio Rhagfarn Ddiarwybod a hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gorfodol.

Ar 31ain Gorffennaf 2023, mae 835 aelod o staff wedi cydymffurfio drwy gwblhau’r hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a 518 yn cydymffurfio drwy gwblhau’r hyfforddiant Herio Rhagfarn Ddiarwybod.

## Data Myfyrwyr

Mae'r data myfyrwyr a roddir yn yr adran hon yn ymwneud â myfyrwyr AU sy'n astudio yng Ngrŵp PCYDDS. Nid yw hyn yn cynnwys myfyrwyr AU sy'n astudio mewn partneriaethau cydweithredol. Ac eithrio'r data ymgeisio sy'n dod o UCAS, mae'r holl ddata arall wedi'u rhoi i HESA[2]. Mae data HESA yn cael eu talgrynnu at ddibenion diogelu data. Mae'r holl ddata wedi'u meincnodi yn ôl y sector, gan ddefnyddio data HEIDI Plus. Mae'r dadansoddiadau yn yr adroddiad hwn yn llywio'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Daw'r data myfyrwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn o'r data mwyaf cyfredol a oedd ar gael ar adeg cyhoeddi (HESA 2022/23). Disgwylir y bydd adendwm i'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr Haf 2024 gan ddefnyddio HESA 2022/23 cyn gynted ag y bydd ar gael.

Mae'r rhan hon o'r adroddiad ystadegol ar gydraddoldeb yn ystyried yn gyntaf broffil cyffredinol myfyrwyr oddi mewn i Grŵp PCYDDS ac wedyn yn canolbwyntio ar dderbyn a chyrhaeddiad myfyrwyr sydd â'r nodweddion gwarchodedig canlynol:

- Rhywedd
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd

Gwneir cymariaethau data hanesyddol pan fo'n bosibl yn ogystal â chymariaethau â sgoriau sector Cymru a'r DU. Mae rhan olaf y data ystadegol sy'n ymwneud â myfyrwyr yn rhoi data ynghylch crefydd / cred a chyfeiriadedd rhywiol.

Cynhwysir data HESA ar gyfer myfyrwyr a dderbyniwyd yn 2019/2020 ond sydd heb barhau ac fe'u dadansoddir yn ôl oedran a rhywedd. Nid oedd data HESA ar gyfer myfyrwyr sydd heb barhau yn ôl ethnigrwydd ac anabledd ar gael ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Daw'r data ymgeiswyr prif gynllun ar gyfer PCYDDS o UCAS. Sylwer bod cyfran uchel o fyfyrwyr PCYDDS yn ymgeisio drwy gais uniongyrchol a llwybrau eraill ar wahân i UCAS ac felly ni chânt eu cynrychioli yn y ffigurau ymgeisio prif gynllun yn yr adroddiad hwn.


Nid yw PCYDDS yn cadw data myfyrwyr ynghylch beichiogrwydd na mamolaeth, na phriodas na phartneriaeth sifil ar ei system cofnodion myfyrwyr ac nid yw'r nodweddion gwarchodedig hyn, felly, wedi eu cynnwys yn yr adroddiad ystadegol hwn ar gydraddoldeb. Anfonir data myfyrwyr i HESA ynghylch ailbennu rhywedd. Am fod y niferoedd cyffredinol yn fach, er mwyn diogelu data, ni wnaed unrhyw ddadansoddiad o'r data yn yr adroddiad ystadegol hwn.

Yn rhan o'r amcanion a amlinellwyd yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae'r Brifysgol wedi parhau i weithio i annog myfyrwyr i ddatgelu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig.

---

[2] Ac eithrio data crefydd/cred a chyfeiriadedd rhywiol, mae'r holl ddata demograffig myfyrwyr yn deillio o Heidi Plus.


## Proffil Myfyrwyr Cyffredinol




*Ffigur 53: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Poblogaeth y Myfyrwyr**

- Dengys ffigur 53 y newid ym mhoblogaeth y myfyrwyr yn PCYDDS (Cyfwerth â Pherson Llawn) yn ôl lefel astudio o 2015/16 i 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Yn 2021/22 cynyddodd cyfanswm y myfyrwyr yn PCYDDS 2% o'i gymharu â 2020/21 (14,795 i 15,045).
- Profodd PCYDDS dwf sylweddol rhwng 2015/16 a 2020/21, pan gynyddodd cyfanswm y myfyrwyr yn PCYDDS 52% (9,760 i 14,795).
- Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhaglenni Israddedig Eraill yn PCYDDS wedi dyblu bron iawn rhwng 2015/16 a 2020/21 (o 2,975 i 5,965). Mae nifer y myfyrwyr Israddedig Eraill wedi gostwng 16% ers hynny i 5,005 yn 2021/22.
- Mae Ymchwil Ôl-raddedig yn parhau i fod yn gyfran fach o ddarpariaeth PCYDDS **(2%),** ond mae wedi cynyddu'n sylweddol o 135 o fyfyrwyr yn 2015/16 i 325 yn 2021/22.
- Cynyddodd nifer y myfyrwyr Ôl-raddedig a Addysgir o 2,030 yn 2020/21 i 2,365 yn 2021/22.





*Ffigur 54: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Poblogaeth y Myfyrwyr yn ôl CAH**

- Dengys ffigur 54 boblogaeth y myfyrwyr yn PCYDDS yn 2020/21 a 2021/22 wedi'i rhannu yn ôl yr Hierarchaeth Cydgasglu Cyffredin (CAH).
- Mae'r meysydd pwnc yn PCYDDS yn 2021/22 â'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr yn cynnwys
    - **38%** (5,695) yn *CAH 17 Busnes a Rheolaeth,*
    - **13%** (2,005) yn *CAH 15 Gwyddorau Cymdeithasol,*
    - **9%** (1,315) yn *CAH 25 Dylunio, y celfyddydau creadigol a pherfformio,*
    - **8%** (1,225) yn *CAH 22 Addysg ac addysgu.*

Ail-godwyd grŵp o oddeutu 1,200 o fyfyrwyr o'r Gwyddorau Cymdeithasol yn 2020/21 i'r Gyfraith yn 2021/22. Gellir priodoli hyn yn gyfan gwbl i ail-godo rhaglenni'r heddlu / academi golau glas i faes pwnc y gyfraith.





*Ffigur 55: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 56: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Lefel Astudio**


- Dengys ffigur 55 gyfran y myfyrwyr yn astudio ar lefelau astudio amrywiol yn PCYDDS o 2015/16 i 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 56 yn cymharu'r gyfran yn astudio ar lefelau amrywiol yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Astudiodd **49%** o fyfyrwyr PCYDDS ar radd gyntaf yn 2021/22, sydd wedi gostwng o **55%** yn 2015/16 ac yn cymharu â **62%** i Gymru a **67%** i sector y DU.
- Astudiodd **33%** o fyfyrwyr PCYDDS raglenni israddedig eraill yn 2021/22, sydd wedi codi o **30%** yn 2015/16.
- Mae cyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr PCYDDS yn astudio rhaglenni israddedig eraill **(33%),** o'i gymharu â sector Cymru (**12%**) a sector y DU **(5%).**
- Daw'r twf o ran myfyrwyr Gradd Gyntaf a'r gostyngiad yn y myfyrwyr Israddedig Eraill yn PCYDDS yn 2021/22 o ganlyniad i raglenni Rheolaeth Gwestai yn recriwtio i'r rhaglen BA a pheidio â recriwtio i'r rhaglen TystAU.
- Mae'r pwyslais ar astudiaethau israddedig eraill yn unol â chenhadaeth PCYDDS i ehangu cyfranogiad a chyfleoedd mynediad i Addysg Uwch.





*Ffigur 57: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Lefel Astudio yn ôl CAH**

- Dengys ffigur 57 gyfran y myfyrwyr yn astudio ar bob lefel astudio ar gyfer pob CAH yn PCYDDS yn 2021/22. Dangosir cyfanswm y myfyrwyr yn astudio o fewn pob CAH (n) hefyd.
- Y grwpiau pwnc mwyaf yn PCYDDS yw Busnes a rheolaeth (5,700 o fyfyrwyr) a’r Gwyddorau cymdeithasol (2,010 o fyfyrwyr). Yn y ddau faes pwnc hyn mae mwyafrif o’r myfyrwyr yn astudio rhaglenni israddedig eraill.
    - Roedd **35%** o fyfyrwyr PCYDDS a oedd yn astudio pynciau busnes a rheolaeth yn 2021/22, yn astudio rhaglenni Israddedig Eraill.
    - Roedd **59%** o fyfyrwyr PCYDDS a oedd yn astudio pynciau’r gwyddorau cymdeithasol yn 2021/22, yn astudio rhaglenni Israddedig Eraill.





*Ffigur 58: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 59: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Dull Astudio**


- Dengys ffigur 58 y gyfran sy'n astudio'n amser llawn yn PCYDDS yn ôl lefel astudio o 2015/16 i 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 59 yn cymharu'r gyfran sy'n astudio'n amser llawn yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Mae **93%** o fyfyrwyr sy'n astudio gradd gyntaf yn PCYDDS yn astudio'n amser llawn yn 2020/21, sy'n gyson â'r 6 blynedd flaenorol, ac yn uwch na chyfartaledd sectorau Cymru **(85%)** a'r DU **(89%).**
- Mae **75%** o fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni israddedig eraill yn PCYDDS yn astudio'n amser llawn, sydd wedi codi o **33%** yn 2015/16. Mae hyn yn parhau i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**38%**) a'r DU (**29%**) ar gyfer 2021/22.
- Mae cyfran y myfyrwyr ôl-raddedig yn PCYDDS sy'n astudio'n amser llawn yn cynyddu;
  - Gostyngodd astudio'n amser llawn ar gyfer ymchwil ôl-raddedig yn PCYDDS o **59%** yn 2020/21 i **55%** yn 2021/22 ond mae'n parhau i fod yn is na chyfartaledd sector Cymru (**73%**) a'r DU (**76%**).
  - Gostyngodd astudio'n amser llawn ar gyfer rhaglenni ôl-raddedig a addysgir yn PCYDDS o **58%** yn 2020/21 i **51%** yn 2021/22 ac mae'n is na chyfartaledd sector Cymru **(58%)**





*Ffigur 60: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Dull Astudio yn ôl CAH**

- Dengys ffigur 60 y dull astudio ar gyfer pob CAH yn PCYDDS yn 2021/22. Dangosir cyfanswm y myfyrwyr yn astudio o fewn pob CAH (n) hefyd.
- Y meysydd pwnc mwyaf yn PCYDDS yn 2021/22 yw Busnes a rheolaeth (5,700 o fyfyrwyr) a’r Gwyddorau Cymdeithasol (2,010 o fyfyrwyr) ac mae ganddynt gyfrannau mawr o fyfyrwyr yn astudio’n amser llawn (**92%** a **78%**).
- Y Gyfraith yw’r maes pwnc â’r gyfran uchaf o fyfyrwyr yn astudio’n amser llawn yn PCYDDS **(97%)** yn 2021/22.
- Yn 2021/22, y maes pwnc â’r gyfran uchaf o astudio rhan-amser yn PCYDDS oedd Peirianneg a thechnoleg gyda **72%.**





*Ffigur 61: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 62: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda**


- Dengys ffigur 61 ddadansoddiad o ddosbarthiadau gradd ar gyfer graddau cyntaf yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae ffigur 62 yn cymharu canran y graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) ar gyfer graddau cyntaf yn PCYDDS o 2015/16 i 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU.
- Mae PCYDDS wedi cael gostyngiad yn y graddau anrhydedd da o **83%** yn 2020/21 i **71%** yn 2021/22. Mae'r sector hefyd wedi gweld gostyngiad o **83%** i **77%** yn yr un cyfnod.
- Dengys 2019/20 a 2020/21 effaith y pandemig ar gyfraddau graddau anrhydedd da ymhlith Graddau Cyntaf. Rhannwyd y cynnydd hwn o ran graddau anrhydedd da gan y sector.
- Yn 2021/22, dychwelodd cyfraddau graddau anrhydedd da i lefelau cyn y pandemig.
- Mae cyfraddau Graddau Anrhydedd Da yn amrywio ar draws meysydd pwnc yn PCYDDS, gweler Ffigur 58.




*Ffigur 63: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Dull Astudio**


- Mae ffigur 63 yn dangos canran y graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn ôl dull astudio ar gyfer graddau cyntaf yn PCYDDS yn 2021/22 o'i chymharu â chyfartaledd sectorau Cymru a'r DU. Hefyd dangosir cyfanswm y dyfarniadau gradd gyntaf yn ôl dull astudio (n).
- Yn 2021/22, roedd cyfradd y graddau anrhydedd da yn PCYDDS ar gyfer myfyrwyr amser llawn (**70%**) yn is na chyfartaledd sector Cymru a'r DU (**77%**).
- Roedd cyfradd y graddau anrhydedd da ymhlith myfyrwyr rhan-amser PCYDDS (**82%**) yn sylweddol uwch yn 2021/22 na chyfartaledd sector Cymru (**68%**) a'r DU (**67%**). Dylid nodi mai nifer y myfyrwyr rhan-amser a dderbyniodd ddyfarniadau am gymwysterau gradd gyntaf oedd 60 yn unig (o'i gymharu â 1,545 ar gyfer amser llawn).





*Ffigur 64: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl CAH**

- Mae ffigur 64 yn dangos dadansoddiad o raddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn ôl CAH yn PCYDDS yn 2021/22 o'u cymharu â chyfartaledd sectorau Cymru a'r DU. Darperir cyfanswm y dyfarniadau (n) hefyd.
- Y maes pwnc â'r nifer uchaf o raddau a ddyfarnwyd yn PCYDDS yn 2021/22 oedd Busnes a Rheolaeth gyda 470, lle dyfarnwyd **64%** o raddau anrhydedd da. Mae hyn yn is na Chymru (**70%**) ac yn is na'r DU (**75%**) am y maes pwnc hwn.
- Y maes pwnc â'r nifer uchaf nesaf o ddyfarniadau yn PCYDDS yn 2021/22 oedd Dylunio a'r celfyddydau creadigol a pherfformio gyda 270, lle dyfarnwyd **74%** o raddau anrhydedd da. Mae hyn yn is na chyfartaledd sector Cymru (**78%**) a'r DU (**79%**) am y maes pwnc hwn.
- Ymchwilir ymhellach i feysydd pwnc sy'n sylweddol wahanol i'r sector. Mae maes pwnc y Gyfraith yn benodol yn faes pryder yr ymchwilir iddo.




*Ffigur 65: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 66: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Heb barhau**

- Dengys ffigur 55 y gyfradd sydd heb barhau yn PCYDDS am fyfyrwyr amser llawn sy'n astudio gradd gyntaf neu raglenni israddedig eraill rhwng blynyddoedd derbyn 2015/16 a 2019/20.
- Dengys ffigur 66 y gyfradd sydd heb barhau yn PCYDDS am fyfyrwyr amser llawn (blwyddyn derbyn 2019/20) o'i chymharu â meincnod HESA.
- Mae'r gyfradd heb barhau yn olrhain myfyrwyr amser llawn o'r flwyddyn maent yn cael eu derbyn i'r flwyddyn ganlynol ac mae'n mesur cyfran y myfyrwyr hynny sy'n absennol o addysg uwch yn gyfan gwbl yn cynnwys y rheini sydd wedi ennill cymhwyster (ffynhonnell HESA).
- Mae'r gyfradd sydd heb barhau ymhlith myfyrwyr gradd gyntaf yn PCYDDS wedi aros yn eithaf cyson ar **13%** rhwng blynyddoedd derbyn 2015/16 a 2019/20. Mae hyn yn is na meincnod HESA ar gyfer graddau cyntaf (**14%**).
- Mae'r gyfradd sydd heb barhau am fyfyrwyr israddedig eraill yn PCYDDS wedi cynyddu er 2015/16, gan godi o 19% yn 2017/18 i **33%** am flwyddyn derbyn 2019/20. Mae'r ganran hon yn is na meincnod HESA (**34%)** a osodir ar sail demograffeg y myfyrwyr a dderbynnir.
- Mae ystod o gamau â ffocws yn cael eu gweithredu'n unol â Strategaeth Llwyddiant Academaidd PCYDDS a gyflwynwyd yn 2022.

## Proffil Myfyrwyr yn ôl Rhywedd





*Ffigur 67: Ffynhonnell UCAS*





*Ffigur 68: Ffynhonnell UCAS*

## Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Rhywedd**

- Dengys ffigur 67 rywedd ymgeiswyr prif gynllun yn PCYDDS rhwng 2017 a 2021 (ffynhonnell UCAS).
- Dengys ffigur 68 rywedd ymgeiswyr prif gynllun yn PCYDDS o'i gymharu â'r sector am 2021 (ffynhonnell UCAS).
- Sylwer bod cyfran uchel o fyfyrwyr PCYDDS yn ymgeisio drwy gais uniongyrchol a llwybrau eraill ar wahân i UCAS ac felly ni chânt eu cynrychioli yn y ffigurau hyn.
- Mae PCYDDS wedi cael cyfran gyson uwch o ymgeiswyr benywaidd na gwrywaidd rhwng 2017 a 2021.
- Yn 2020/21, roedd **58%** o ymgeiswyr yn PCYDDS yn fenywaidd (o'i gymharu â 57% am y sector) a **42%** yn wrywaidd (o'i gymharu â **43%** am y sector).





*Ffigur 69: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 70: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Rhywedd**

- Dengys ffigur 69 broffil rhywedd y myfyrwyr yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Dengys ffigur 70 y newid yng nghanran poblogaeth y myfyrwyr benywaidd rhwng 2015/16 a 2021/22 ar gyfer sector y DU, sector Cymru ac yn PCYDDS.
- Cafodd PCYDDS gynnydd yng nghyfran y myfyrwyr benywaidd rhwng 2017/18 (**55.07%**) a 2019/20 (**57.81%**) sydd wedi cwympo’n ôl i gyd-fynd â’r sector yn 2021/22 (**56.59%**).





*Ffigur 71: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 72: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran a Rhywedd**


- Dengys ffigur 71 ddosbarthiad menywod a dynion yn PCYDDS ar draws gwahanol gategorïau oedran yn 2021/22.
    - Roedd mwy o fenywod na dynion ymhob categori oedran yn PCYDDS yn 2021/22 (ac eithrio 60 oed neu hŷn lle roedd ychydig yn fwy o fyfyrwyr gwrywaidd).
- Dengys ffigur 72 y proffil rhywedd ar draws gwahanol gategorïau oedran yn PCYDDS yn 2021/22 o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU.
    - Roedd **52%** o fyfyrwyr benywaidd yn PCYDDS yn 30 oed neu hŷn yn 2021/22. Mae hyn yn sylweddol uwch na sector Cymru (**32%**) a sector y DU (**24%**).
    - Roedd **46%** o fyfyrwyr gwrywaidd yn PCYDDS yn 30 oed neu hŷn yn 2021/22. Eto, mae hyn yn sylweddol uwch na sector Cymru (**24%**) a sector y DU (**19%**).




*Ffigur73 Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl CAH**


- Dengys ffigur 73 y proffil rhywedd ar gyfer pob CAH yn PCYDDS yn 2021/22. Dangosir cyfanswm y myfyrwyr yn astudio o fewn pob CAH (n) hefyd.
    - Roedd gan y meysydd pwnc mwyaf yn PCYDDS (Busnes a rheolaeth a'r Gwyddorau Cymdeithasol) gyfran uchel o fyfyrwyr benywaidd (**55%** a **85.6%**)yn 2021/22.
    - Roedd gan Addysg gyfran uchel iawn o fyfyrwyr benywaidd (**81.2%**) yn 2021/22.
    - Roedd gan bynciau STEM (peirianneg, pensaernïaeth a chyfrifiadura) a'r Gyfraith (yr Heddlu a'r Academi Golau Glas) gyfran uchel iawn o fyfyrwyr gwrywaidd yn 2021/22.
- Mae'r Athrofeydd a'r Adran Farchnata yn cydweithio'n agos i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhywedd o ran y myfyrwyr a dderbynnir ar gyfer meysydd pwnc penodol.





*Ffigur 74: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl Lefel Astudio**

- Dengys ffigur 74 broffil rhywedd pob lefel astudio yn PCYDDS yn 2021/22, o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Yn PCYDDS yn 2021/22, roedd y cydbwysedd rhywedd am raddau cyntaf yn **56.6%** benywaidd ac yn cyd-fynd â chyfartaledd sectorau Cymru a'r DU.
- Roedd y cydbwysedd rhywedd am raglenni israddedig eraill yn PCYDDS yn **57.2%** benywaidd yn 2021/22. Mae hyn yn sylweddol is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**61%**) a'r DU (**65.5%**).
- Roedd gan raglenni ymchwil ôl-raddedig yn PCYDDS yn 2021/22 gyfran uchel o fyfyrwyr benywaidd (**67%**) o'u cymharu â chyfartaledd y sector yng Nghymru (**51.9%**) a'r DU (**51.3%).**
- Roedd gan raglenni ôl-raddedig a addysgir yn PCYDDS yn 2021/22 **57%** o fyfyrwyr benywaidd, sy'n cyd-fynd â chyfartaledd y sector yng Nghymru (**56.9%**) a'r DU (**58.4%**).





*Ffigur 75: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 76: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Rhywedd yn ôl Dull Astudio**

- Dengys ffigur 75 y gyfran a oedd yn astudio'n amser llawn yn ôl rhywedd yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22, tra mae ffigur 76 yn cymharu PCYDDS â sectorau Cymru a'r DU ar draws yr un cyfnod (ffynhonnell HESA).
- Cododd cyfran y myfyrwyr benywaidd a oedd yn astudio'n amser llawn yn PCYDDS **16 pwynt canran** o **65%** i **81%** rhwng 2015/16 a 2021/22. Yn sector y DU cafwyd cynnydd o **3 phwynt canran** (**75%** i **78%**) yn ystod yr un cyfnod.
- Cododd cyfran y myfyrwyr gwrywaidd a oedd yn astudio'n amser llawn yn PCYDDS **7 pwynt canran** o **71%** i **78%** rhwng 2015/16 a 2021/22. Yn sector y DU cafwyd cynnydd o **3 phwynt canran** (**79%** i **82%**) yn ystod yr un cyfnod.




*Ffigur 77: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 78: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Rhywedd**

- Dengys ffigur 77 broffil rhywedd canlyniadau graddau yn PCYDDS yn 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 78 yn cymharu graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn ôl rhywedd yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Yn 2021/22, roedd myfyrwyr benywaidd yn PCYDDS yn fwy tebygol o sicrhau gradd anrhydedd dda (**73.4%**) o'u cymharu â myfyrwyr gwrywaidd **(65.6%)**.
    - Roedd graddau anrhydedd da i fyfyrwyr gwrywaidd yn PCYDDS (**65.6%**) yn is na sector y DU (**73.3%**) a sector Cymru **(76.4%).**
    - Roedd graddau anrhydedd da i fyfyrwyr benywaidd yn PCYDDS (**73.4%**) yn is na sector y DU (**79%**) a sector Cymru **(80.8%).**

## Proffil Myfyrwyr yn ôl Oedran





*Ffigur 79: Ffynhonnell UCAS*





*Ffigur 80: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Oedran**

- Dengys ffigur 79 y ceisiadau prif gynllun yn PCYDDS yn ôl oedran am 2021/22, o'u cymharu â'r sector (ffynhonnell UCAS). Sylwer bod cyfran uchel o fyfyrwyr PCYDDS yn ymgeisio drwy gais uniongyrchol a llwybrau eraill ar wahân i UCAS ac felly ni chânt eu cynrychioli yn y ffigurau hyn.
- Dengys ffigur 80 broffil oedran cyfnewidiol myfyrwyr yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Yn 2021, roedd **38%** o ymgeiswyr prif gynllun yn PCYDDS yn 21 neu hŷn, o'u cymharu â **15%** am y sector.
- Mae PCYDDS wedi gweld gostyngiad cyson yng nghyfran y myfyrwyr 20 oed neu iau, o **33%** yn 2015/16 i **15%** yn 2021/22.
- Mae cyfran y myfyrwyr 25 oed neu hŷn yn PCYDDS wedi codi o 40% yn 2015/16 i **66%** yn 2021/22, o'i chymharu â **42%** am sector Cymru a **35%** am sector y DU (gweler Ffigur 88).





*Ffigur 81: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 82: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Oedran**


- Dengys ffigur 81 ddadansoddiad o boblogaeth y myfyrwyr yn PCYDDS yn 2021/22 yn ôl pob grŵp oedran (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 82 yn cymharu proffil oedran myfyrwyr yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Yn PCYDDS yn 2021/22, roedd **14.8%** o'r myfyrwyr yn 20 oed ac iau sy'n sylweddol is na chyfartaledd sectorau Cymru (**32.6%**) a'r DU (**37.3%**).
- Mae proffil oedran aeddfed PCYDDS yn arwydd o bortffolio â chyfran uchel o raglenni israddedig eraill a phwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, uwchsgilio, a dysgu gydol oes (gweler hefyd ffigur 88).





*Ffigur 83: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl CAH**

- Dengys ffigur 83 y dosbarthiad oedrannau ar gyfer pob grŵp pynciau (CAH) yn PCYDDS yn 2021/22. Dangosir cyfanswm y myfyrwyr yn astudio o fewn pob CAH (n) hefyd ar gyfer cyd-destun.
- Y ddau grŵp pynciau mwyaf yn PCYDDS yw'r meysydd â'r proffil oedran hŷn hefyd:
  - Roedd **78%** o'r 5,695 o fyfyrwyr a oedd yn astudio busnes a rheolaeth yn 25 oed neu hŷn yn 2021/22.
  - Roedd **82%** o'r 2,005 o fyfyrwyr a oedd yn astudio'r gwyddorau cymdeithasol yn 25 oed neu hŷn yn 2021/22.
- Mae gan grŵp pynciau nesaf PCYDDS o ran maint, sef Dylunio, y celfyddydau creadigol a pherfformio, broffil oedran sy'n sylweddol iau. Mae **68%** o'r 1,310 o fyfyrwyr yn y grŵp pynciau hwn yn iau na 25 oed.





*Ffigur 84: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 85: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl Lefel Astudio**


- Dengys ffigur 84 y dadansoddiad o'r lefel astudio yn ôl oedran yn PCYDDS yn 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 85 yn cymharu proffil oedran y gwahanol lefelau astudio yn PCYDDS a sectorau Cymru a'r DU yn 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Roedd **61%** o fyfyrwyr a oedd yn astudio Gradd Gyntaf yn PCYDDS yn 2021/22 yn 25 oed neu hŷn, o'i gymharu â **27%** ar gyfer sector Cymru ac **20%** ar gyfer sector y DU.
- Yn PCYDDS, mae proffil oedran rhaglenni israddedig eraill yn cyd-fynd â'r sector gyda **68%** o fyfyrwyr yn 25 oed a hŷn.





*Ffigur 86: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Oedran yn ôl Dull Astudio**


- Dengys ffigur 86 y gyfran astudio amser llawn i astudio rhan-amser yn ôl categori oedran yn PCYDDS o'i chymharu â sector y DU yn 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Yn 2021/22, roedd gan bob grŵp oedran yn PCYDDS gyfran uwch o fyfyrwyr amser llawn, ar wahân i fyfyrwyr 60 oed neu hŷn lle roedd y mwyafrif (**63%**) yn astudio'n rhan-amser.




*Ffigur 87: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 88: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 89: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Oedran**

- Dengys ffigur 87 broffil oedran canlyniadau graddau yn PCYDDS yn 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Dengys ffigur 88 broffil oedran graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22 (ffynhonnell HESA).
- Mae ffigur 89 yn cymharu graddau anrhydedd da yn ôl oedran â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Yn 2021/22, cafwyd gostyngiad yng nghyfradd y graddau anrhydedd da yn PCYDDS ar draws pob grŵp oedran.
    - Dyfarnwyd gradd anrhydedd dda i **73**% o fyfyrwyr 18-20 oed yn PCYDDS, sy'n is na'r sector.
    - Dyfarnwyd gradd anrhydedd dda i **70%** o fyfyrwyr 21-24 oed, o'i gymharu â **78%** ar gyfer sector Cymru a **81%** ar gyfer sector y DU.
    - Dyfarnwyd gradd anrhydedd dda i **70%** o fyfyrwyr 25-29 oed, o'i gymharu â **73%** ar gyfer sector Cymru a **72%** ar gyfer sector y DU.
    - Dyfarnwyd gradd anrhydedd dda i **73%** o fyfyrwyr 30 oed a hŷn, o'i gymharu â **72%** ar gyfer sector Cymru a **72%** ar gyfer sector y DU.




*Ffigur 90: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 91: Ffynhonnell HESA*


## Ffeithiau Allweddol: **Heb Barhau yn ôl Oedran**

- Dengys ffigur 90 y gyfradd sydd heb barhau yn PCYDDS am y myfyrwyr a dderbyniwyd yn 2019/20, wedi'u rhannu yn ôl grwpiau oedran (myfyrwyr ifanc yw'r rheini sydd dan 21 oed a myfyrwyr aeddfed yw'r rheini sy'n 21 oed neu hŷn, yn unol â diffiniadau HESA).
- Dengys ffigur 91 y gyfradd sydd heb barhau yn PCYDDS yn ôl oedran, dull astudio a blwyddyn derbyn (myfyrwyr ifanc yw'r rheini sydd dan 21 oed a myfyrwyr aeddfed yw'r rheini sy'n 21 oed neu hŷn, yn unol â diffiniadau HESA).
- Roedd cyfradd heb barhau PCYDDS ar gyfer myfyrwyr a dderbyniwyd yn 2019/20 yn well na'r meincnod:
    - Roedd y gyfradd sydd heb barhau am radd gyntaf amser llawn yn **12%** o'i chymharu â'r meincnod sef **15%**.
    - Mae'r gyfradd sydd heb barhau am fyfyrwyr israddedig eraill yn cyd-fynd â'r meincnod ar draws grwpiau oedran.

## Proffil Myfyrwyr yn ôl Ethnigrwydd

Sylwer bod y prif gategorïau yn yr adran hon yn canolbwyntio ar fyfyrwyr sy'n hanu o'r DU; mae myfyrwyr nad ydynt yn hanu o'r DU wedi eu cynnwys yn y categori Anhysbys/Amherthnasol. Mae modd i fyfyrwyr beidio â datgelu eu hethnigrwydd a cheir data am y myfyrwyr hynny o fewn y categorïau 'anhysbys' / 'amherthnasol' hefyd.


Mae **90%** o fyfyrwyr sy'n ymgeisio i PCYDDS drwy geisiadau prif gynllun yn Wyn. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd sector y DU lle mae ond **68%** o fyfyrwyr yn Wyn.




*Ffigur 92: Ffynhonnell UCAS*

### Ffeithiau Allweddol: **Ceisiadau Prif Gynllun yn ôl Ethnigrwydd**


- Dengys ffigur 92 y ceisiadau prif gynllun yn ôl ethnigrwydd yn 2021 ar gyfer PCYDDS o'u cymharu â'r sector.
- Mae **90%** o fyfyrwyr sy'n ymgeisio drwy'r prif gynllun yn PCYDDS yn Wyn, sy'n sylweddol uwch na'r sector **(68%).**
- Sylwer bod cyfran isel PCYDDS o Raddau Cyntaf (**44%** yn 2020/21) yn golygu bod mwyafrif y myfyrwyr yn ymgeisio drwy gais uniongyrchol a llwybrau eraill ar wahân i UCAS ac felly ni chânt eu cynrychioli yn ffigurau'r prif gynllun. Sylwer hefyd fod mwyafrif myfyrwyr lleiafrifoedd ethnig PCYDDS yn astudio rhaglenni israddedig eraill ac yn cael eu recriwtio drwy asiantau ac felly nid ydynt yn cael eu cynnwys yn nata ceisiadau prif gynllun UCAS.




*Ffigur 93: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd**


- Dengys ffigur 93 y newid o ran y proffil ethnigrwydd yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Lleihaodd cyfradd y myfyrwyr Gwyn yn PCYDDS o **83%** yn 2015/16 i **74%** yn 2021/22.
- Bu cynnydd cyson yng nghyfran y myfyrwyr Du (**2% i 6%**), Cymysg (**1% i 2%**) ac Asiaidd (**2% i 8%**) rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae'r cynnydd eglur yn niferoedd y myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn ganlyniad i ddull strategol â ffocws ar ddarparu astudiaethau AU ar gyfer cymunedau "anodd eu cyrraedd" drwy ddatblygu nifer o raglenni astudio TystAU sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth (gweler Ffigur 102 am ragor o fanylion).




*Ffigur 94: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd**


- Mae ffigur 94 yn cymharu'r proffil ethnigrwydd yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU.
- Yn 2021/22, roedd cyfran y myfyrwyr Asiaidd (**8%**) a Du (**6%**) a oedd yn astudio yn PCYDDS yn uwch na sector Cymru (**5%** a **3%**) ac yn cyd-fynd â sector y DU (**9%** a **6%**).
- Roedd cyfran myfyrwyr PCYDDS y mae eu hethnigrwydd naill ai'n anhysbys neu'n amherthnasol (**9%**) yn sylweddol is na chyfartaledd sectorau Cymru (**18%**) a'r DU (**25%**) yn 2021/22.




*Ffigur 95: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl CAH**


- Mae ffigur 95 yn cymharu’r proffil ethnigrwydd yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a’r DU.
- Y ddau faes pwnc â’r gyfran uchaf o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig (Gwyddorau Cymdeithasol a Busnes a Rheolaeth), yw’r meysydd sydd wedi profi twf sylweddol yn gyffredinol yn PCYDDS rhwng 2019/20 a 2021/22 hefyd.




*Ffigur 96: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl Lefel Astudio**


- Mae ffigur 96 yn cymharu ethnigrwydd yn ôl lefel astudio yn PCYDDS â sectorau Cymru a'r DU ar gyfer 2021/22.
- Roedd **77%** o fyfyrwyr a oedd yn astudio Gradd Gyntaf yn PCYDDS yn 2021/22 yn Wyn, o'i gymharu â **77%** ar gyfer sector Cymru a **60%** ar gyfer sector y DU.
- Roedd **70%** o fyfyrwyr yn astudio rhaglenni israddedig eraill yn PCYDDS yn 2021/22 yn Wyn, o'i gymharu â chyfartaledd sector o **81%** ar gyfer Cymru a **69%** ar gyfer y DU.
- Yn 2021/22, roedd gan ddarpariaeth israddedig arall PCYDDS gyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr Asiaidd (**10%**) a Du (**10%**) o'i chymharu â chyfartaledd sectorau Cymru (**4%** a **4%**) a'r DU (**7%** a **5%**).




*Ffigur 97: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd yn ôl Dull Astudio**


- Mae ffigur 97 yn dangos dull astudio yn ôl ethnigrwydd yn PCYDDS yn 2021/22 o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU.
- Dengys data dull astudio cyffredinol PCYDDS fod myfyrwyr yn fwy tebygol o astudio'n amser llawn o'i gymharu â sector Cymru a'r DU (gweler ffigur 47 am ragor o wybodaeth).
- Astudiodd cyfran uwch o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig yn amser llawn o'i gymharu â myfyrwyr Gwyn yn PCYDDS yn 2021/22.
- Astudiodd **96%** o fyfyrwyr Asiaidd yn amser llawn yn PCYDDS yn 2021/22, o'i gymharu â chyfartaledd sector Cymru **(80%)** a'r DU **(83%).**
- Astudiodd **95%** o fyfyrwyr Du yn amser llawn yn PCYDDS yn 2021/22, o'i gymharu â chyfartaledd sector Cymru (**77%)** a'r DU **(81%).**
- Astudiodd **87%** o fyfyrwyr Cymysg yn amser llawn yn PCYDDS yn 2021/22, o'i gymharu â Chymru (**79%)** a'r DU **(82%).**
- Gwerth nodi bod gan ddarpariaeth israddedig arall PCYDDS gyfran uchel o fyfyrwyr o leiafrifoedd ethnig (gweler ffigur 96) a bod y rhaglenni hyn yn aml yn cael eu haddysgu'n amser llawn (**75%**) (gweler ffigur 58 a ffigur 59).




*Ffigur 98: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Ethnigrwydd ac Oedran**


- Dengys ffigur 98 ethnigrwydd yn ôl oedran yn PCYDDS yn 2021/22 o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Mae cyfran uchel o fyfyrwyr PCYDDS yn aeddfed o'i chymharu â'r sector, fel y'i disgrifiwyd yn flaenorol (gweler ffigur 83 a ffigur 84).
- Roedd cyfran uchel o fyfyrwyr PCYDDS o leiafrifoedd ethnig yn hŷn na chyfartaledd y sector yn 2021/22.
  - Roedd **74%** o fyfyrwyr Asiaidd yn PCYDDS yn 2021/22 yn 30 oed neu hŷn, o'i gymharu â **29%** ar gyfer sector Cymru ac **17%** ar gyfer sector y DU.
  - Roedd **64%** o fyfyrwyr Du yn PCYDDS yn 2021/22 yn 30 oed neu hŷn, o'i gymharu â **44%** ar gyfer sector Cymru ac **36%** ar gyfer sector y DU.
  - Roedd **48%** o fyfyrwyr Cymysg yn PCYDDS yn 2021/22 yn 30 oed neu hŷn, o'i gymharu â **21%** ar gyfer sector Cymru ac **17%** ar gyfer sector y DU.
  - Roedd **57%** o fyfyrwyr o ethnigrwydd arall yn PCYDDS yn 2021/22 yn 30 oed neu hŷn, o'i gymharu â **32%** ar gyfer sector Cymru a **24%** ar gyfer sector y DU.
  - Roedd **46%** o fyfyrwyr Gwyn yn PCYDDS yn 2021/22 yn 30 oed neu hŷn, o'i gymharu â **30%** ar gyfer sector Cymru a **25%** ar gyfer sector y DU.




*Ffigur 99: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Ethnigrwydd a Rhywedd**


- Dengys ffigur 99 y proffil ethnigrwydd yn ôl rhywedd yn PCYDDS yn 2021/22 o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU (ffynhonnell HESA).
- Roedd cyfran ychydig yn is (**49%**) o fyfyrwyr Asiaidd benywaidd yn PCYDDS o'i chymharu â chyfartaledd sectorau Cymru (**52%**) a'r DU (**54%**).
- Roedd cyfran y myfyrwyr Du benywaidd (**56%**) yn PCYDDS yn 2021/22 yn uwch na chyfartaledd sector Cymru (**53%**) ac yn is na'r DU (**61%**).
- Roedd cyfran y myfyrwyr Cymysg benywaidd (**61%**) yn PCYDDS yn sylweddol uwch na chyfartaledd sectorau Cymru (**56%**) a'r DU (**59%**).
- Roedd **57%** o fyfyrwyr o ethnigrwydd arall yn PCYDDS yn 2021/22 yn fenywaidd o'i gymharu â chyfartaledd sector o **51%** ar gyfer Cymru a **55%** ar gyfer y DU.
- Roedd **58%** o fyfyrwyr Gwyn yn PCYDDS yn 2021/22 yn fenywaidd o'i gymharu â chyfartaledd sector o **60%** ar gyfer Cymru a **60%** ar gyfer y DU.




*Ffigur 100: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd**


- Dengys Ffigur 100 gyfran graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn ôl ethnigrwydd yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22. Nid yw rhai blynyddoedd yn cynnwys data ar gyfer ethnigrwydd penodol oherwydd methu â bodloni trothwy sicrhau bod yn ddienw.
- Mae cyfradd graddau anrhydedd da wedi cynyddu ar draws pob demograffeg yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2020/21, a gostyngodd ar gyfer 2021/22 (gweler ffigur 61 a ffigur 62 am ragor o fanylion). Ac o 2017/18 i 2021/22, mae'r bwlch dyfarniadau yn ôl ethnigrwydd yn PCYDDS wedi lleihau.
- Yn 2021/22, roedd myfyrwyr ag ethnigrwydd anhysbys yn PCYDDS â'r gyfran uchaf o raddau anrhydedd da (**74%**), o'i gymharu â myfyrwyr Gwyn (**72%**), Du (**62%**), Cymysg (**68%**) ac Asiaidd (**61%**).
- Rhwng 2015/16 a 2020/21, cynyddodd cyfradd y graddau anrhydedd da ymhlith myfyrwyr Asiaidd yn PCYDDS yn sylweddol o **35%** i **67%,** ac mae wedi cwympo i 61% yn 2021/22. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfradd y graddau anrhydedd da ymhlith myfyrwyr Du o **48%** i **76%** rhwng 2015/16 a 2020/21, wedyn cwympodd i 62% yn 2021/22. Gweler ffigur 101 am gymhariaeth â'r sector.




*Ffigur 101: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd**

- Mae ffigur 101 yn cymharu cyfran y graddau anrhydedd da yn ôl ethnigrwydd yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU.
- Yn 2021/22, roedd cyfradd y graddau anrhydedd da ar gyfer myfyrwyr Asiaidd yn PCYDDS (**61%**) yn is na chyfartaledd sector Cymru (**72%**) a'r DU (**75%**).
- Yn 2021/22, rhagorodd myfyrwyr Du yn PCYDDS ar gyfartaledd sector Cymru (**62%**) a'r DU (**63%**) drwy dderbyn graddau anrhydedd da ar gyfradd o **62%** yn 2021/22.
- Derbyniodd myfyrwyr cymysg yn PCYDDS raddau anrhydedd da ar gyfradd o **68%** yn 2021/22, sy'n is na chyfartaledd sector Cymru (**80%**) a'r DU (**80%**).
- Nid oedd niferoedd ethnigrwydd 'Arall' yn PCYDDS yn 2021/22 yn bodloni trothwy cyhoeddi gwybodaeth.
- Derbyniodd myfyrwyr Gwyn yn PCYDDS raddau anrhydedd da ar gyfradd (**72%**) a oedd yn is na chyfartaledd sector Cymru (**79%**) a'r DU (**83%**) yn 2021/22.
- Derbyniodd myfyrwyr ag ethnigrwydd a oedd yn anhysbys neu'n amherthnasol raddau anrhydedd da ar gyfradd o **74%** yn PCYDDS yn 2021/22. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd sector Cymru (**68%**) ac yn cyd-fynd â chyfartaledd sector y DU (**74%**).





*Ffigur 102: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Ethnigrwydd a Rhywedd**

- Dengys ffigur 102 raddau anrhydedd da yn ôl ethnigrwydd a rhywedd yn PCYDDS yn 2021/22 o'u cymharu â sectorau Cymru a'r DU.
- Sylwer, oherwydd nifer isel y dyfarniadau, ei bod yn anodd dod i gasgliadau cadarn wrth rannu ethnigrwydd yn ôl rhywedd (gweler y gwerthoedd n).
- Yn gyffredinol dyfarnwyd cyfraddau uwch o raddau anrhydedd da i fyfyrwyr benywaidd o bron pob ethnigrwydd yn PCYDDS nag i fyfyrwyr gwrywaidd yn 2021/22, ac eithrio myfyrwyr Du lle dyfarnwyd graddau anrhydedd da i **58%** o fyfyrwyr benywaidd ac i **66%** o fyfyrwyr gwrywaidd.


## Proffil Myfyrwyr yn ôl anabledd

Sylwer nid yw data UCAS ar gyfer cyfran y myfyrwyr ag anabledd datganedig ar gael bellach.




| | 2015/16 | 2015/16 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ag anabledd hysbys** | 1,715 | 1,725 | 1,730 | 1,875 | 2,000 | 2,085 | 2,095 |
| **Heb unrhyw anabledd hysbys / Yn anhysbys** | 8,215 | 8,030 | 8,550 | 9,260 | 10,705 | 12,715 | 12,955 |


*Ffigur 103: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 104: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Proffil Anabledd**


- Dengys ffigur 103 y newid yn y gyfran o fyfyrwyr yn PCYDDS ag anabledd hysbys rhwng 2015/16 a 2021/22. Darperir tabl yn dangos niferoedd y myfyrwyr ag anabledd hysbys hefyd er mwyn darparu cyd-destun pellach.
- Mae ffigur 104 yn cymharu cyfran myfyrwyr PCYDDS ag anabledd hysbys yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU.
- Mae canran y myfyrwyr ag anabledd hysbys yn PCYDDS wedi cwympo o **17.3%** yn 2015/16 i **13.9%** yn 2021/22 ac mae'n is na chyfartaledd sectorau Cymru (**16.5%**) a'r DU (**20.4%**). Fodd bynnag, oherwydd y twf sylweddol ym mhoblogaeth y myfyrwyr yn PCYDDS yn ystod y cyfnod hwn, mae niferoedd y myfyrwyr ag anabledd hysbys yn PCYDDS wedi codi **22%** (1,715 i 2,095).





*Ffigur 105: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl CAH**

- Dengys ffigur 105 y proffil anableddau wedi'i rannu yn ôl CAH yn PCYDDS yn 2021/22.
- Mae Busnes a rheolaeth ymhlith y cyfraddau isaf o anableddau datganedig yn PCYDDS yn 2021/22 (**5%**).
- Mae oddeutu **1 ymhob 3** myfyriwr ar raglenni dylunio, a'r celfyddydau creadigol a pherfformio yn PCYDDS wedi datgan anabledd yn 2021/22.





*Ffigur 106: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 107: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Proffil Anabledd Manwl**

- Dengys ffigur 106 y newid ym mhroffil y myfyrwyr ag anabledd hysbys yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae ffigur 107 yn cymharu proffil anableddau'r myfyrwyr yn PCYDDS yn 2021/22 â Chymru a'r DU.
- Mae gan gyfran uchel o fyfyrwyr anabl PCYDDS anawsterau dysgu penodol (**43%**) o'i gymharu â sectorau Cymru (**34%**) a'r DU (**32%**).
- Yr ail gategori uchaf o namau ymhlith myfyrwyr anabl yn PCYDDS yw cyflyrau iechyd meddwl (**19%**).
- Mae cyfran y myfyrwyr anabl yn PCYDDS â dau gyflwr neu fwy wedi codi o **6%** yn 2015/16 i **16%** yn 2021/22 ac mae'n uwch na chyfartaledd sector Cymru (**13%**) a'r DU (**14%**).





*Ffigur 108: Ffynhonnell HESA*




*Ffigur 109: Ffynhonnell HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Rhywedd ac Oedran**


- Dengys ffigur 108 broffil rhywedd myfyrwyr PCYDDS ag anableddau hysbys yn 2021/22, o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU.
- Mae **63.3%** o fyfyrwyr ag anabledd hysbys yn PCYDDS yn fenywaidd. Mae'r ganran yn is ar **55.6%** am fyfyrwyr heb unrhyw anabledd hysbys. Mae'r ffigurau hyn yn cyd-fynd â chyfartaleddau'r sector.
- Dengys ffigur 109 broffil oedran myfyrwyr PCYDDS ag anableddau hysbys yn 2021/22, o'i gymharu â sectorau Cymru a'r DU.
- Fel y'i disgrifiwyd yn flaenorol, mae proffil oedran cyffredinol PCYDDS yn fwy aeddfed na sector Cymru a'r DU (gweler ffigur 81 a ffigur 84) ac adlewyrchir hyn yn y proffil oedran am fyfyrwyr ag anabledd hysbys a heb unrhyw anabledd hysbys.





*Ffigur 110: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Lefel Astudio**

- Dengys ffigur 110 lefel astudio myfyrwyr PCYDDS ag anableddau hysbys yn 2021/22, o'i chymharu â sectorau Cymru a'r DU. Defnyddir y data anabledd datganedig fesul pwnc yn y sefydliad i dargedu a chanolbwyntio cymorth.
- Mae gan PCYDDS ddarpariaeth israddedig Arall uchel o'i chymharu â'r sector (fel y'i disgrifiwyd yn flaenorol, gweler ffigur 50) ac adlewyrchir hyn yn y lefelau astudio ar gyfer myfyrwyr ag anableddau datganedig yn PCYDDS yn 2021/22.





*Ffigur 111: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 112: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Anabledd yn ôl Dull Astudio**

- Dengys ffigur 111 gyfran y myfyrwyr sy'n astudio'n amser llawn yn ôl anabledd hysbys yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae ffigur 112 yn cymharu'r dull astudio yn ôl anabledd yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU.
- Rhwng 2015/16 a 2021/22, roedd newid mawr yng nghyfran y myfyrwyr heb unrhyw anabledd hysbys yn astudio cyrsiau amser llawn, gan ei bod wedi cynyddu o **64.8%** yn 2015/16 i **82.9%** yn 2019/20. Mae hyn bellach ar lefel debyg i'r myfyrwyr hynny sydd ag anabledd hysbys sydd yn nodweddiadol wedi ffafrio astudio amser llawn. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfartaledd sector y DU, ond yn uwch na chyfartaledd Cymru.




*Ffigur 113: Ffynhonnell HESA*





*Ffigur 114: Ffynhonnell HESA*

| | 2015/16 | 2015/16 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwr iechyd meddwl** | 76% | 66% | 86% | 75% | 76% | 97% | 75% |
| **Anhawster dysgu penodol** | 69% | 72% | 74% | 73% | 79% | 76% | 68% |
| **Dau gyflwr neu fwy** | - | - | 86% | - | 86% | 72% | 81% |
| **Heb unrhyw anabledd hysbys / Yn anhysbys** | 66% | 69% | 72% | 73% | 74% | 83% | 70% |

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Anabledd**

- Dengys ffigur 113 gyfran graddau anrhydedd da (dosbarthiadau gradd dosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) yn ôl anabledd yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae ffigur 114 yn cymharu cyfran y graddau anrhydedd da yn ôl detholiad o anableddau yn PCYDDS yn 2021/22 â sectorau Cymru a'r DU (oherwydd y niferoedd isel sy'n gysylltiedig â rhai namau penodol, gellir dangos pedwar categori'n unig yma).

- Dyfarnwyd gradd anrhydedd dda i **70.1%** o fyfyrwyr heb unrhyw anabledd hysbys, sy'n is na chyfartaledd Cymru sef **76.6%** a chyfartaledd y DU sef **78.7%.**
  Mae **72%** o fyfyrwyr ag anabledd yn derbyn gradd anrhydedd dda yn PCYDDS sy'n cyd-fynd â chyfartaledd y ddau sector.
- Yn achos myfyrwyr yn PCYDDS â chyflwr iechyd meddwl, dyfarnwyd graddau anrhydedd da i **75%** yn 2021/22, sy'n is na chyfartaledd Cymru (**77.2%**) a'r DU (**81%**).
- Yn achos myfyrwyr yn PCYDDS ag anhawster dysgu penodol, dyfarnwyd graddau anrhydedd da i **68%** yn 2021/22, sy'n is na chyfartaledd Cymru (**75.3%**) a'r DU (**79.1%**).
- Dyfarnwyd graddau anrhydedd da i **81.4%** o fyfyrwyr â dau gyflwr neu fwy yn PCYDDS yn 2020/21, sy'n cyd-fynd â chyfartaledd sector Cymru (**79.5%)** ac yn is na'r DU (**78.1%).**





*Ffigur 115: Ffynhonnell HESA*

## Ffeithiau Allweddol: **Gradd Anrhydedd Dda yn ôl Anabledd a Rhywedd**

- Dengys ffigur 115 raddau anrhydedd da yn ôl anabledd a rhywedd yn PCYDDS yn 2021/22 o'u cymharu â sectorau Cymru a'r DU.
- Adlewyrchir rhaniad cyffredinol PCYDDS o ran rhywedd ar gyfer graddau anrhydedd da, â chyfradd uwch o fyfyrwyr benywaidd yn sicrhau graddau anrhydedd da o'u cymharu â myfyrwyr gwrywaidd (gweler ffigur 77 a ffigur 78 am ragor o fanylion).
- Yn PCYDDS, roedd cyfradd y graddau anrhydedd da a ddyfarnwyd i fyfyrwyr benywaidd ag anabledd hysbys yn **75.2%** yn 2021/22. Mae hyn yn is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**78.3%**) a'r DU (**80.8%**).
- Yn PCYDDS, roedd cyfradd y graddau anrhydedd da a ddyfarnwyd i fyfyrwyr gwrywaidd ag anabledd hysbys yn **65.6%** yn 2021/22. Mae hyn yn is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**72.8%**) a'r DU (**77.2%**).
- Yn PCYDDS yn 2021/22, dyfarnwyd graddau anrhydedd da i **72.9%** o fyfyrwyr benywaidd heb unrhyw anabledd hysbys. Mae hyn yn is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**79.2%**) a'r DU (**80.7%**).
- Roedd cyfradd y graddau anrhydedd da a ddyfarnwyd i fyfyrwyr gwrywaidd heb unrhyw anabledd hysbys yn PCYDDS yn **65.5%** yn 2021/22. Mae hyn yn is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (**73.5%**) a'r DU (**76.2%**).


## Proffil Myfyrwyr yn ôl Crefydd a Chred




| | 2015/16 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cristion** | 30.3% | 27.8% | 32.9% | 38.7% | 40.0% | 38.1% |
| **Dim crefydd** | 45.6% | 42.4% | 40.8% | 39.7% | 35.4% | 36.2% |
| **Mwslim** | 9.2% | 15.6% | 14.2% | 9.9% | 11.0% | 12.4% |
| **Gwybodaeth wedi ei gwrthod** | 6.6% | 6.5% | 5.2% | 6.5% | 7.7% | 7.9% |
| **Ysbrydol** | 3.1% | 2.9% | 2.3% | 1.9% | 2.2% | 1.7% |
| **Unrhyw grefydd neu gred arall** | 2.6% | 1.6% | 1.5% | 1.6% | 1.8% | 1.5% |
| **Bwdhydd** | 1.1% | 0.8% | 0.9% | 0.8% | 0.7% | 0.5% |
| **Hindŵ** | 1.0% | 1.5% | 0.6% | 0.5% | 0.6% | 1.2% |
| **Sikh** | 0.1% | 0.2% | 0.2% | 0.2% | 0.2% | 0.3% |
| **Iddew** | 0.2% | 0.3% | 0.1% | 0.1% | 0.1% | 0.1% |

*Ffigur 116: Ffynonellau data mewnol*

## Crefydd a chred myfyrwyr o'u cymharu â'r sector yn 2021/22





| | DU | Cymru | PCYDDS |
|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 47% | 56% | 38% |
| Cristion | 31% | 28% | 36% |
| Mwslim | 12% | 8% | 12% |
| Anhysbys | 0% | 0% | 8% |
| Ysbrydol | 2% | 2% | 2% |
| Unrhyw grefydd neu gred arall | 2% | 2% | 2% |
| Hindw | 5% | 3% | 0% |
| Bwdhydd | 1% | 1% | 1% |
| Sikh | 1% | 1% | 0% |
| Iddew | 0% | 0% | 0% |

*Ffigur 117: Ffynonellau data mewnol a data sector HESA*

### Ffeithiau Allweddol: **Crefydd a Chred**

- Dengys ffigur 116 broffil crefydd a chred myfyrwyr yn PCYDDS yn 2021/22. Hefyd darperir y newid yn y proffil crefydd a chred yn PCYDDS rhwng 2015/16 a 2021/22.
- Mae ffigur 117 yn cymharu'r proffil crefydd a chred ar gyfer myfyrwyr yn PCYDDS â chyfartaleddau sector Cymru a'r DU.

## Proffil Myfyrwyr yn ôl Cyfeiriadedd Rhywiol




| | 2015/16 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Heterorywiol** | 78% | 80% | 80% | 80% | 80% | **78%** |
| **Deurywiol** | 3% | 4% | 3% | 3% | 3% | **3%** |
| **Dyn Hoyw** | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | **1%** |
| **Menyw Hoyw /Lesbiad** | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | **1%** |
| **Arall** | 2% | 3% | 3% | 3% | 3% | **3%** |
| **Gwybodaeth wedi ei gwrthod** | 15% | 11% | 11% | 13% | 13% | **14%** |

*Ffigur 118: Ffynonellau data mewnol*

## Ffeithiau Allweddol: **Cyfeiriadedd Rhywiol**

- Dengys ffigur 112 gyfeiriadedd rhywiol myfyrwyr yn PCYDDS yn 2021/22.
- Heterorywiol oedd y math mwyaf cyffredin o gyfeiriadedd rhywiol, gyda **78%** o fyfyrwyr yn datgan hyn.
- Gwrthododd **14%** o fyfyrwyr ddatgan y wybodaeth hon yn 2021/22, sy'n gynnydd bach o'r flwyddyn flaenorol.